

## EDWARDS, SYDENHAM TEAST (1768 - 1819), arlunydd llysiâu ac anifeiliaid

**Enw:** Sydenham Teast Edwards  
**Dyddiad geni:** 1768  
**Dyddiad marw:** 1819  
**Rhiant:** Mary Edwards (née ?Reece)  
**Rhiant:** Lloyd Pittel Edwards  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** arlunydd llysiâu ac anifeiliaid  
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaerniaeth; Natur ac Amaethyddiaeth  
**Awdur:** Megan Ellis

Bedyddiwyd ef ym Mrynbuga 5 Awst 1768, mab Lloyd Pittel Edwards, ysgolfeistr ac organydd ym Mrynbuga a'r Fenni, a'i wraig Mary (? Reece o Lantilio Croesenni).

Daeth ei fedr fel tynnwr lluniau ag ef i sylw William Curtis, llysiueydd a phryfegydd, a'i hanfonodd ef i Lundain i ddysgu'r gelfyddyd o arlunio.

Rhwng 1798 a 1814 cyfrannodd Edwards y mwyafrif o'r darluniau ar gyfer *The Botanical Magazine* ac amryw ar gyfer *Flora Londinensis*. Cyhoeddodd chwe rhifyn, 1800-5, o *Cynographia Britannica*, yn cynnwys ysgythriadau lliw yn dangos y gwahanol fathau o gwn a fegid ym Mhrydain Fawr, a darparodd y darluniau ar gyfer *The New Botanic Garden*, 1805-7, a ailgyhoeddwyd yn 1812 o dan yr enw *The New Flora Britannica*. Torrodd ei gysylltiad â *The Botanical Magazine* yn 1814, gan ddechrau *The Botanical Register*. Dangoswyd 12 o'i ddarluniau yn y Royal Academy rhwng 1792 a 1814.

Y mae nifer o ddarluniau dyfrlliw o'i eiddo ac o ysgythriadau o'i waith, y mwyafrif ohonynt yn ddarluniau o adar, anifeiliaid, a llysiâu, ar gael heddiw mewn casgliadau preifat yng Nghymru ac yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, yr Amgueddfa Brydeinig, ac Amgueddfa South Kensington.

Bu farw 8 Chwefror 1819 a chladdwyd ef yn hen eglwys Chelsea.

### Awdur

**Megan Ellis**, (1906 - 2001)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*, xvii, 126

T. M. Rees, *Welsh painters, engravers and sculptors, 1527â€“1911* (1912)

S. Redgrave, *A Dictionary of Artists of the English School* (London 1878)

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Sydenham Edwards

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 34803935

Wikidata: Q1118055

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

#### Arddull APA



Ellis, M., (1953). EDWARDS, SYDENHAM TEAST (1768 - 1819), arlunydd llysiâu ac anifeiliaid. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 8 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EDWA-TEA-1768>

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn ôl gŵyl  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government